



TGAU

3010NB0-1

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 2: Y NOFEL

HAEN UWCH

DYDD LLUN, 21 MAI 2018 – BORE

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

Defnyddiwch yr indecs gyferbyn i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

COFIWCH DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL I GEFNOGI'CH SYLWADAU.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

NOFELAU	TUDALEN
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	4
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	8
DIM (Dafydd Chilton)	11
Y STAFELL DDIRGEL (Marion Eames)	15
YN Y GWAED (Geraint Vaughan Jones)	19
O RAN (Mererid Hopwood)	22

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones

1. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
 - (a) **Trafodwch y modd y mae thema DIAL yn datblygu yn y nofel hon.
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]**
 - (b) **Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 5-7. SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**
 - (c) **Ysgrifennwch DDYDDIADUR RICHARD JONES wedi iddo weld y tai ar dir Tan Ceris.
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**

[40]

“Mis Tachwedd oedd hi. Nos Iau. Roedd hi wedi
 bod yn stido bwrw’n ddi-baid ers y pŵn cynt, ac
 roedd yr afon wedi hen orlifo’i glanna. Roedd ’nhad
 a ’mam wedi bod yn Llanaron gyda’r nos yn edrych
 5 am ffrindia, a thra buon nhw yno mi ddaeth i fwrw’n
 waeth. Roeddau nhw’n altro’r ffordd rhwng fama a
 Llanaron ar y pryd ac yn codi pont newydd dros yr
 afon yn ymyl Aberaron. Roedd y ddwy bont yn yr un
 lle, felly roeddau nhw wedi hanner codi’r un newydd
 10 a hanner chwalu’r hen un, ac roedd hi’n dipyn o
 draed moch yno, heb ddim ond yr hen betha oren a
 gwyn hynny i ddangos i bobol y ffordd i fynd. Yn y
 nos roeddau nhw’n plastro’r lle efo goleuadau bach.
 Ond mi gododd yr afon mor uffernol mewn hanner
 15 awr nes llifo dros y lle i gyd a mynd â’r goleuadau a’r
 cwbl i’w chanlyn. Pan ddaeth ’nhad a ’mam yno ar eu
 ffordd adra, mae’n siŵr gen i nad oedd bosib iddyn
 nhw wybod ble’r oedd y lôn yn iawn. Does ’na neb yn
 gwybod be ddigwyddodd ond mi welodd Wil Aberaron
 20 y car yn mynd dros yr ochr i’r afon. Roedd o’n dŵad at
 y giât lôn ar y pryd.”

“Wnaethon nhw foddi’n syth?”

Yr oedd llais Einir yn floesg.

“Do mae’n rhaid.”

25 “Gawson nhw hyd iddyn nhw’r noson honno?”

Rhoes Meredydd ochenaid arall, a syllodd yn syn ar
 siâp y lleuad drwy’r llenni.

“Roedd ’mam yn y car. Mi ddaethon nhw o hyd i
 ddrws y dreifar o dan Aberaron ymhen deuddydd.”

30 “A dy dad?”

“Mi gafodd ei gario i’r môr. Mi fu yno am bythefnos.”

**Gwyddai bod Einir yn wylo wrth ei ochr, ond gwyddai hefyd na fedrai ymatal yn awr. Nid oedd wedi sôn wrth neb o’r blaen am y ddamwain; yr oedd popeth wedi
35 ei gloi i mewn ynddo ers yr adeg y digwyddodd, yn gyfrinach nad oedd am i neb gael ei rhannu ag ef, tan heno.**

**“Mi aethon nhw â ’mam i Benerddig i roi post mortem arni. Ac mi cadwon nhw hi yno i ddisgwyl i rywun
40 ddod o hyd i ’nhad. Mi wnaeth Wmffra Gweithdy smonach, er nad oedd ganddo radd o help ar y pryd. Fo sy’n gwneud eirch a threfnu cnebryna yma. Roedd o wedi morol am agor bedd y diwrnod ar ôl y ddamwain, ac mi agorodd Robat Ifas torrwr bedda
45 fo’n syth. Mi fu’r bedd ar agor am bron i dair wythnos yn disgwyl i rywun fynd iddo fo. Roedd Robat Ifas yn edrych yn uffernol o embaras bob tro y gwela fo fi. Erbyn y diwedd roedd pobl wedi mynd i siarad, oherwydd bob tro y byddai’n bwrw mi fydda ochra’r
50 bedd yn disgyn. Roedd ’na ddiawl o lanast yno.”**

“Taw rŵan, bendith iti.”

Yr oedd Einir yn wylo’n ddi-baid, a’i chorff yn crynu drwyddo wrth iddi geisio cadw’n ddistaw.

**“Fi ddaeth o hyd i ’nhad. Roedd pawb arall wedi laru
55 chwilio. Mi fyddwn i’n cerdded y traetha ‘ma a’r creigia ’ma bob dydd i chwilio amdano fo. Mi fyddwn i’n clywed pobl yn siarad amdana i ac yn deud mai adra’n y tŷ yn galaru oedd fy lle i. Roeddau nhw’n deud ei bod yn bosib mai yn Sir Fôn ne Lerpwl ne’ Werddon y
60 deuai o i’r lan, ac ambell un yn deud na ddeuai o byth,**

unwaith y bydda'r cŵn gleision a'r cimychiaid wedi mynd i'r afael â fo. Ond rhyw fora, – bythefnos union ar ôl iddo fo fynd ar goll, mi gwelis i o ar graig isal tua milltir o ben draw'r traeth lle'r oeddau ni pnawn, wedi
65 ei adael yno gan y trai. Roedd ei ddillad wedi mynd i gyd.”

“Taw, wnei di?”

I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

- 2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- (a) Trafodwch y modd y mae thema DIAL yn datblygu yn y nofel hon.
Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol.
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]**
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 9-10.
SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon?
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**
- (c) Ysgrifennwch DDYDDIADUR CHICO wedi iddo gael ei achub gan Benito a Tanuah.
Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn.
Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**

[40]

Gorweddai hi yno'n llonydd. Roedd hi newydd afael mewn carreg. Doedd hi ddim yn garreg fawr, ond roedd hi'n galed.

5 Cododd Dicks ac aeth yn ôl at ei ddillad. Gwaeddodd ar ei ddynion, "Os oes yna rywun isho gwagiad, mae yna uffar o beth boeth yn fan'ma!"

Eisteddodd ar lawr i dynnu'i esgidiau am ei draed.

10 Cododd ei ben pan glywodd leisiau'i ddynion yn ei rybuddio, ond roedd hi'n rhy hwyr. Aeth yn nos ddu arno. Roedd Haul y Bore wedi'i daro'n galed ar ei ben.

Safodd hithau yno am ennyd yn edrych y tu hwnt i'r clwyf oedd ar ben y Capten. Yno roedd corff bychan yn gorwedd. Disgynnodd ar ei gliniau. Yn ei dicter plannodd ei cheg yng ngwddf y Capten a brathodd
15 â'i holl nerth. Clywodd y cnawd yn rhwygo rhwng ei dannedd a theimlodd y gwaed yn llifo'n gynnes i'w cheg.

Ofnai'r milwyr danio ergydion ati rhag iddynt daro'r Capten; ond yna, gyda sgrech herfeiddiol, troes Haul y
20 Bore a rhedeg i'r coed.

Rhedodd rhai o'r milwyr ar eu hunion i ymgeleddu Dicks, ac aeth eraill ar ôl y ferch.

Ymhen rhai munudau daeth Dicks ato'i hun.

"Y bitsh! Lle mae hi?"

25 "Rhywle yn y coed, syr. Fe sgrechiodd 'Chiquito' cyn rhedeg i'r coed."

"Rhaid i ni'i ffeindio hi! Ugain doler i bwy bynnag a ddaw â'i chorff hi'n ôl yma mewn hanner awr!"

30 Rhuthrodd y milwyr fel un gŵr i'r coed. Wedi'r cyfan, roedd ugain doler yn gyflog mis.

Ceisiodd Dicks godi, ond ni allai. Roedd yr ergyd wedi'i daro'n galetach nag yr oedd wedi tybio. Roedd gwaed hefyd yn ffrydio o'r clwyf yn ei wddf. Bu ar ei eistedd am rai munudau cyn ceisio codi drachefn. Y
35 tro hwn, trwy bwyso'n drwm ar ei reiffl, herciodd at ei geffyl. O fag ei gyfrwy estynnodd rwymyn a photel o wisgi. Cymerodd ddracht o'r botel cyn socian y cadach a'i wthio i'r clwyf. Brathodd ei wefus, a throdd yn gyflym i edrych tua'r coed.

40 "Bitsh!" meddai drachefn.

Petai wedi edrych yr un mor gyflym i gyfeiriad yr afon, mae'n bosib y byddai wedi gweld wyneb rhychiog, gwelw a dau lygad llonydd, stond yn syllu'n oeraidd arno drwy'r hesg. Yn ystod ei phedwar ugain
45 ac un o flynyddoedd ar y ddaear roedd Quanah wedi gweld pethau erchyll, a hoffai adrodd straeon am yr erchyllterau hynny yn hwyr y nos yng ngolau'r tân i ddychryn rhai o'r plant ienga. Rwan, roedd ganddi stori newydd. Stori y byddai'n rhaid iddi ei hadrodd yn
50 dawel. Ei hadrodd i ddechrau wrth Geronimo a Chico...

DIM – Dafydd Chilton

- 3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- (a) Trafodwch y modd y mae thema PERTHYN yn datblygu yn y nofel hon. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]**
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 12-14. SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**
- (c) Ysgrifennwch DDYDDIADUR GWYN noson angladd Richard Lloyd. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**

[40]

Y tu mewn, safai pawb ar y naill ochr neu'r llall yn ddau grŵp disgwylgar ac aflonydd, tra edrychai'r Chweched i lawr arnyn nhw o'r galeri, yn rymus ddi-ddiddordeb. Pan ddaeth y neges fod yr athrawon ar eu ffordd daeth bloedd oddi wrth Bowyer-Jones, yr HEAD BOY, ar i'r rhai islaw gau eu cegau, ac ymsythodd pawb.

Daeth yr athrawon i mewn. A cherdded, yn unigolion ac yn ddeuoedd, i lawr canol y neuadd ac i ben y llwyfan yn y pen draw. Atgoffai eu parêd anniben Owain o ffrindiau Wil Cwac Cwac yn mynd am dro, wysg eu pigau, ar ddechrau LLYFR MAWR Y PLANT: Ifan Twrci Tenau, Huw Herc ... Tom Tilley, Spring, Herman, Bongo a'r lleill. Ond bod y mynd hwn yn debycach yn ei effaith i lorri'n gyrru heibio ar stryd gul – yn frawychus o fawr a di-hid – ac yn taro dyn ag arogleuon hen frethyn, a dillad wedi eu presio, a chwyr Cherry Blossom ac, uwchben y cwbl, surni mwg tybaco.

Safodd yr athrawon o flaen eu cadeiriau metal a phren tri thrwch i ddisgwyl yr olaf, a'r blaenaf, ohonyn nhw: Dai.

Y Prif newydd.

Hwylodd i mewn, a'i wŷn yn llifo o'i ôl a'i fol yn brigo o'i flaen. Edrychodd o ddim i'r naill ochr na'r llall – gwrogaeth roedd Dai yn ei erchi, nid cymdeithas – a chamodd i'r llwyfan.

Nodiodd ei ganiatâd i'r athrawon eistedd a chymerodd ei le yn y canol.

A chododd y REV. Darllenodd ddarn byr o

COLLOSIANS, a gweddi'n canmol Duw am ei fendithion hael ac yn erfyn arno i'n harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder, a dywedodd pawb Amen. Eisteddodd y REV.

35 Ac yna, fe gododd Dai.

Daeth i flaen y llwyfan a sefyll yno.

Edrychodd ar y dorf o fechgyn heb ddweud gair.

Ddechreuai Dai ddim nes bod pawb yn dangos, yn eu hwynebau a'u hosgo, y parch a fynnai o. Crwydrodd ei lygaid o gwmpas y dorf, i chwilio am y rhai a allai fod ag angen clywed min ei dafod. Oedodd ei olwg fymryn yn hirach ar y rheiny. Nes iddyn nhw wywo'n foddhaol.

Wedi sicrhau sylw pawb fe gododd ei sbectol i'w drwyn a chlirio'i lwnc.

45 Daeth bloedd. Oddi wrth Gwyn. Trodd llygaid yr ysgol i edrych arno a gwyddai Owain yn syth beth oedd wedi digwydd. Roedd Dunning, un o fêts Alistair Watts o FIVE TWO, wedi crafu blaen ei esgid i lawr hyd gewyn ffêr Gwyn. Roedd Dunning yn un o'r rhai a roddai glemiau ar flaenau a sodlau ei esgidiau i greu sŵn da, sŵn 'dyn caled', wrth iddo gerdded; ac am resymau eraill, fel roedd Gwyn newydd ei brofi.

55 Rhwbiodd Gwyn ei ffêr ac yna, gan daflu golwg filain ar Dunning, fe sythodd yn ôl i olwg Dai. Diolchodd Owain nad oedd Gwyn wedi taflu dwrn, ond gwyddai'n iawn mor agos yr oedd o at wneud hynny, a bod y cochni a lifai i'w wyneb yn arwydd o'i ymdrech i beidio.

"WELL?" Saethodd y gair o enau Dai. Safai Gwyn

60 yn llonydd, a lliw ei ddicter yn treio'n glytiau ac yna'n welwder hen gadach llawr. **“ARE YOU FINISHED?”**

Agorodd Gwyn ei geg i ateb.

“GET OUT!!”

65 Dechreuodd Gwyn symud trwy'r disgyblion, yn araf ond yn ddirwystr, fel petai pawb newydd ddarganfod fod ganddo afiechyd heintus.

Roedd Dai Lewis yn ddisgyblwr diarhebol o lym. Ond roedd y llipryn hwnnw **LLOYD FROM THE HILLS** wedi rhoi pîn ym mogel ei anerchiad cyntaf fel Y Prif. Roedd 70 wedi difetha un o ddigwyddiadau mawr ei fywyd.

Roedd yn poeri.

“Go to my office! How DARE you interrupt ME! You IGNORANT Welsh INSECT!”

Arhosodd Gwyn.

Y STAFELL DDIRGEL – Marion Eames

- 4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- (a) Trafodwch y modd y mae thema CREULONDEB yn datblygu yn y nofel hon. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]**
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 16-18. SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**
- (c) Ysgrifennwch DDYDDIADUR ELLIS PUW wedi iddo glywed y newyddion am foddi Dorcas yn y Gadair Goch. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**

Estynnodd Huw ei law yn araf i dderbyn yr arian. Ni ddywedodd air, dim ond edrych arni'n feddylgar. Yna trodd ar ei sawdl ac aeth allan o'r stafell.

Safodd Meg yno yn ansicr. A gafodd hi
 5 fuddugoliaeth? Yn graddol sylweddoli fod y gwas wedi mynd mewn gwirionedd bu bron iddi weiddi dan orfoledd. Cydiodd yn y gannwyll a rhedodd i'r llofft. Tynnodd y cwpwrdd dillad ar agor. Gwthiodd y gwisgoedd o'r neilltu a thynnodd ymaith y bocs
 10 gwerthfawr, y bocs a fyddai'n prynu ei dyfodol. Daeth ochenaid tebycach i gri o'i gwefusau. Claddodd ei llaw ymhlith y darnau arian a theimlo eu cadernid real. Cododd lond dwrn a'u dal i'r goleuni, a'r dagrau poeth o ryddhad yn boddi ei gruddiau, a'r chwerthin
 15 gorffwyll yn dianc ar ei gwaethaf.

'Maen nhw i'w clywed yn dda, yntydan nhw, mistras?'

Trodd y chwerthin yn sgrech a dagodd yn ei gwddf. Safai'r gwas yno a'i gefn yn erbyn porth y drws.

Daliodd ei law allan. Yna, fel yr agorodd hi ei cheg eto i
 20 ddechrau sgrechian, symudodd fel slywen ati a rhoi ei law dros ei cheg.

'Mi fydd y sgrech yna wedi deffro'r tŷ yn barod. Mae'n rhaid i ni gael mwy o hamdden i gloi'r fargen.'

Roedd Huw wedi gweithio'r peth allan yn ofalus.

25 Pe bai o'n cymryd yr arian i gyd, ni fyddai ganddi gymhelliad i gadw'n dawel; mwy na hynny, hawdd iawn fyddai iddi ei gyhuddo o ddwyn yr arian, ac ni chymerid ei air ef yn erbyn ei gair hi. Byddai gadael iddi gael yr hanner yn gadael y drws yn agored.

30 Chwarddodd yn dawel wrth feddwl fod y feistres ac ef

yn gyd-gynllwynwyr.

‘Byddaf yn eich disgwyl yn y gegin ymhen rhyw hanner awr; ac os bydd y mistar wedi dŵad adra cyn hynny, yn y beudy yfory am hanner dydd. Hanner yr
35 arian, cofiwch. Mi fydda’ i’n gwybod os ca’ i ’nhwylo.’

Diflannodd Huw Morris i lawr y grisiau mor ddi-sŵn ag y daethai. Syllodd Meg yn fud ar y bocs yn agored wrth ei thraed, ac aeth i grynu drosti i gyd. Safodd y chwys oer ar ei thalcen ac o gwmpas ei thrwyn a’i
40 gwefusau gwelwon. Yn sydyn teimlodd ei chorff yn cael ei rwygo gan boenau annioddefol, yn pwyso i lawr, i lawr ...

Na, nid rŵan. O Dduw, paid â gadael iddo ddigwydd rŵan! Ceisiodd gau’r bocs a’i lusgo yn ôl i’r cwpwrdd, ond roedd yr ymdrech yn ormod iddi. Gollyngodd y
45 cyfan. Cydiodd yn wyllt ym mhost y gwely, a thynnu yn ei erbyn, tra lledodd staen fawr wleb ar y llawr oddi tani.

‘Malan!’ sgrechiodd Meg cyn syrthio i’r llawr yn
50 anymwybodol.

Â chalonnau trymion y daeth Rowland Ellis a’i was Ellis Puw o’r Tabor y noson honno. Roedd Robert Owen, Dolserau, newydd gyrraedd yn ôl o’i daith yn Lloegr, a newyddion am y Cyfeillion yno gydag ef. Nid
55 oedd dim a glywsent yn debyg o godi eu calonnau. Cymerwyd George Fox i’r ddalfa yng Nghaerwrangon a llawer o Gyfeillion eraill gydag ef. Rhybuddiodd Robert Owen y Cyfeillion yn y Tabor fod dyddiau blin o erlid o’u blaen, a’i fod ef ei hun wedi derbyn gair
60 cyfrinachol fod yr Ustusiaid yn paratoi i’w ddwyn ef yn

ôl i garchar Dolgellau.

Pan gyrhaeddodd gŵr Bryn-mawr adre, roedd newydd arall yn ei ddisgwyl. Ganwyd ei ail blentyn y noson honno—merch arall. Ond bu farw'r fam wrth ei

65 geni.

YN Y GWAED – Geraint Vaughan Jones

- 5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- (a) Trafodwch y modd y mae thema EUOGRWYDD yn datblygu yn y nofel hon. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]**
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 20-21. SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch yn yr olygfa hon? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**
- (c) Ysgrifennwch DDYDDIADUR MAM wedi i Mared ddweud wrthi ei bod yn feichiog. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**

[40]

Chwerthin ma' hi! Chwerthin yn lloerig
 ddilywodraeth ... am ben Mam! Ac ma' Mam
 yn gorff! Yn gorwadd ar y garrag goch, a'i
 gwddw hi'n geg fawr ddu ... ac ma'i gwddw
 5 hi'n chwerthin, yn fy ngwatwar. Ble ma'r
 gyllall? Mared yn noethlymun gorn; 'i bronna
 calad yn diferu'n ddisglair yn y glaw, ac
 ma' hi'n pwyntio ata i, at y gyllall yn fy llaw
 ... 'i llafn hi'n ddu ... a'm llaw i'n goch! Y
 10 daran yn rowlio uwchben ... yn fy mhen! A
 hwnnw'n dyrnu, dyrnu ... a dwi'n wlyb oer ...
 ac ma' gwddw Mam yn chwerthin yn hyll ...
 A Mared yn sgrechian, a'r babi'n crio ... ac
 ma' 'na rywun tu ôl imi ... Aaaaah! ... Cysgod
 15 du a'i law oer goch ar fy ngwar! Aaaaaah!
 Ma'i ddüwch o drosta i a dwi'n boddi mewn
 gwaed coch tew ... Aaaaaaaah!

'Deffra, Robin! Deffra, da di! Ti 'di deffro pawb arall
 efo dy weiddi gwirion, a'n dychryn ni o'n croen yn reit
 20 siŵr!'

Wrth i'r storm ostegu trodd y dafnau chwys yn iâ oer
 ar ei dalcen. Roedd gfael ei fam ar gnawd gwlyb ei
 ysgwydd yn filain a'r ewinedd yn brathu i'r byw.

'Fedrwn ni ddim mynd ymla'n fel hyn; cael ein cyffroi
 25 fel 'ma noson ar ôl noson! Deugain oed a rhagor, ac
 yn colli arnat dy hun yn ddireswm. Sbia arnat ti! Rwyd
 ti'n furum o chwys. Mi ei ditha o dy bwyll hefyd! Wyt ti
 'nghl'wad i? Ddim yn gall fyddi di!'

30 Ei fam yn plygu dros ei wely plu a'i cheg yn fawr ac yn
ddiddannedd ddu, llafnau ei hewinedd a llafn ei llais
yn ei ddadebru'n greulon, fel halen ar friw. A'r hunlle'n
glais o'i fewn.

35 'Wyt ti'n effro, dŵad? Agor dy lygid, neno'r tad, inni
gael tawelwch yn y tŷ 'ma unwaith eto. Gwell iti neud
diod iddo fo, Mared.'

Mared yn ei choban wen yn nrws y llofft a golau'r
landin yn chwarae'n hy yn y neilon tenau, yn ei noethi
hi o flaen ei lygaid.

40 'Paid â rhythu'n wirion, Robin! Ma' golwg ddigon
hurt arnat ti ar y gora. Dos ditha i nôl llymad iddo fo,
Mared! Gwna fel dwi'n deud wrthat ti'r tro cynta! Dŵr
neith y tro yn iawn.'

45 Ai gwenu mae Mared wrth droi'n bryfoclyd draw ac
oedi ennyd arall yn y golau, ei gwallt yn ddŵwch llaes
ar ei chefn sidan ac yn goron o flerwch disglair yr un
pryd?

'Dwn i ddim be wnâi dy wraig, pe bait ti 'di llwyddo i
gael un erioed. Mi fasa'r druan 'di hurtio'n reit siŵr.'

50 Cannwyll ei llygad yn fflam ddu wrth iddi sychu
chwys ei dalcen yn chwyrn. Ei dwylo fel dwylo ... !
Y llafnau o ewinedd caled, budr yn ymestyniad o'i
bysedd hir, migyrnog. Ei gwallt brith yn beli tynn ar y
clustiau. Croen ei gwddw'n codi'n rychau atgas o'i
bronnau llac. A'i cheg ddiddannedd ddu!

55 'Pam na thriwch chi ... ?' Cwestiwn mud, anorffen.
'Hwda! Yf hwn!'

Mae llygaid Mared yn chwerthin.

O RAN – Mererid Hopwood

- 6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**
- (a) Trafodwch y modd y mae thema TWYLL yn datblygu yn y nofel hon. Ceisiwch gyfiawnhau eich ateb gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol. Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]**
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalennau 23-25. SUT mae'r awdur yn creu awyrgylch yn y ddwy olygfa? Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**
- (c) Ysgrifennwch DDYDDIADUR ANGHARAD wedi iddi ddeall mai Anti June yw ei mam. Cofiwch sôn am ddigwyddiadau a theimladau sy'n gysylltiedig â hyn. Dylech ysgrifennu tua un ochr tudalen. [10]**

[40]

Yr Iard

Ar y dechrau, roedd yr iard yn ddirgelwch. Pan ganai'r gloch roedd y sŵn yn codi a phawb yn rhuthro mas i'r iard. Byddai'r plant mawr yn dod dwmbwr-dambar lawr llawr, ac roedd sefyll ar waelod y stâr concrit
 5 a arweiniai at stafelloedd dosbarth y plant mawr yn beryg bywyd amser chwarae. Gwisgo cot. Mynd allan i fyd newydd.

Sefyll yn dynn wrth y biben sy'n arwain o'r bondo i'r llawr a gwasgu yn erbyn y wal. Teimlo'r gwynt am fy
 10 nghoesau. Dal gwaelod fy ffrog. Ofni yn fy nghalon y byddai'r gwynt yn codi'r ffrog a dangos y nicys nefi. Teimlo lwmpyn caled yn fy ngwddw. Gwylio'r bechgyn mawr yn chwarae rygbi. Y merched mawr yn chwarae rhyw gêm gyfrin gyda darn o lastig rownd pigyrnau
 15 dwy ohonynt ac un arall yn y canol yn neidio drwy batrymau dirgel. Gweld y goeden gastanwydden yn y pen draw pell, reit ar bwys y reilings sy'n gwarchod y plantos rhag y rheilffordd. Ac yn y pen draw agos, gweld y rhes o dai bach a'u drysau stabal. Astudio fy
 20 nhraed. Casáu'r sgidie brown synhwyrol. Astudio fy mhengliniau. Plygu i bigo crachen y cwt diweddaraf. Dyheu am i'r sane aros lan. Codi fy mhen a gweld bod y lastig wedi cyrraedd pengliniau'r ddwy ferch dal, a'r ferch yn y canol yn neidio'n uwch drwy'r patrymau
 25 cyfrin.

Syllu. Gwylio Miss James yn dal yn dynn yn ei mÿg o goffi, ei chardigan yn gorffwys dros ei sgwyddau a chylch o ferched llai yn ffys i gyd o'i chwmpas. Cloch

arall yn canu. Plant yr ysgol gyferbyn yn llifo allan
 30 drwy'r drysau glas. Plant ein hysgol ni yn rhedeg at
 y wal a wahanai'r ddwy iard. Rhai yn gweiddi 'Inglîs'.
 Yr Inglîs yn gweiddi 'Welshîs' nôl. Miss James yn
 chwythu chwiban. Y 'Welshîs' yn gadael yr 'Inglîs' i
 fod. Cloch yn canu. Pawb yn diflannu.

35 Aros.

A rhedeg ar draws yr iard i guddio tu ôl i'r goeden a
 gwylio'r trenau'n mynd a dod a chlywed yr Inglîs yn y
 pellter a'u chwerthin yn swno fel crio gwyllanod ar y
 gwynt.

Stŵr

40 Roedd Miss James yn grac. Roedd hi'n grac iawn.
 Mor grac nes y bu rhaid iddi fynd i siarad gyda Miss
 Edwards i weld beth fyddai'n digwydd i fi. Roedd Miss
 James wedi gofidio'n ofnadwy amdana i. Roeddwn i
 wedi achosi poen meddwl i Miss James. Roeddwn i'n
 45 ferch hunanol iawn. Doeddwn i ddim wedi dod nôl i'r
 dosbarth run pryd â phawb arall. Roeddwn i'n ferch
 ddrwg. Mor ddrwg nes bod pawb yn y dosbarth yn
 edrych arna i. Mor ddrwg nes bod rhaid i fi sefyll o
 flaen pawb yn y dosbarth a mhen i lawr tra bod Miss
 50 James yn mynd i siarad gyda Miss Edwards. Gallwn
 weld byddinoedd o sgidie o dan y desgiau ar y llawr
 pren. Sgidie brown fel fy sgidie i gan fwyaf. Ac yn eu
 plith, un pâr o sgidie coch sgleiniog. Ac yn arwain o'r

sgidie coch sgleiniog yr holl ffordd at ganol pen-glin
55 eu perchennog roedd par o sane gwynion. Doeddwn i
ddim wedi dysgu enw neb yn y dosbarth eto, heblaw
am un enw. Siân Evans. Sgidie a sane Siân Evans
oedd y rhain.

DIWEDD Y PAPUR